



**Plaid**  
PLAID CYMRU

# Yma i Chi

Plaid Cymru Maniffesto Ewropeaidd 2009





Hyrwyddwyd gan Plaid Cymru,  
Ty Gwynfor, Marine Chambers,  
Glanfa'r Iwerydd,  
Caerdydd, CF104AL.

**[www.plaidcymru.org](http://www.plaidcymru.org)**

Argraffwyd gan Forest DWJ Print  
S4, Pier House,  
Doc Penfro SA72 6TR

zodshopdesign.co.uk • dylunio sensitif i'r amgylchedd  
Dylunwyd gan ddefnyddio 100% o ynni adnewyddadwy a argraffwyd  
gan ddefnyddio technoleg ddigidol ar FSC Revive 75 (TCF)



**Ymgeiswyr Ewropeaidd Plaid Cymru Cymru: Eurig Wyn, Jill Evans MEP, Ioan Bellin & Natasha Asghar**

## Rhagair

Mae gennym ddewis clir yn yr etholiad Ewropeaidd hwn. Mae'n ddewis rhwng Plaid, sydd yma i chi ac yn llais cryf i Gymru yn Ewrop; neu blaid Lafur sydd allan o gysylltiad ac yn rhoi buddiannau llywodraeth Llundain cyn buddiannau pobl Cymru.

Mae Plaid yma i chi, yn ymgyrchu dros degwch i bawb yn yr amseroedd economaidd anodd hyn. Rydym wedi gweithio'n galed i gael y fargen orau i Gymru gan yr Undeb Ewropeaidd, a byddwn yn dal i weithio dros y pum mlynedd nesaf i wneud yn siŵr fod Cymru yn manteisio'n llawn o bolisïau Ewropeaidd.

Yr ydym yn credu mewn Ewrop y bobloedd a'r cenhedloedd, agored a democrataidd, gyda'r penderfyniadau yn cael eu gwneud mor agos at y bobl ag sydd modd. Credwn fod aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd wedi bod yn dda i Gymru, ond bod angen diwygio er mwyn adlewyrchu dymuniadau ei phobl.

Byddwn yn ymladd i gael llais cryfach i Gymru yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae arnom angen i Weinidogion Cymru allu mynd yn syth at Gyngor Gweinidogion yr UE. Bydd perthynas waith gref ac effeithiol rhwng Cymru ac Ewrop yn hanfodol dros y pum mlynedd nesaf er mwyn sicrhau'r fargen orau ar bolisïau allweddol megis Cronfeydd Strwythurol yr UE a diwygiadau ym maes amaeth.

Mae gan Blaid Cymru flynyddoedd o brofiad o gynrychioli Cymru yn Ewrop. Yn Senedd Ewrop, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Phlaid Genedlaethol yr Alban ac ASE o Gatalonia, Gwlad y Basg, Fflandrys a gwledydd eraill. Mae hyn yn rhoi mwy o nerth i ni frwydro dros Gymru ac yn rhoi mwy o ddylanwad i ni yn Senedd Ewrop. Rydym wedi llwyddo i amddiffyn a hyrwyddo buddiannau Cymru niferoedd o weithiau - ar gyllid Ewropeaidd, hawliau gweithwyr, cefnogaeth i amaethyddiaeth, hybu bwyd lleol, cydraddoldeb i fenywod a phobl ifanc, a statws yr iaith Gymraeg.

Plaid ryngwladol ydym ni, ac yr ydym yn gweithio gyda'n partneriaid Ewropeaidd i hybu datrys anghydfod yn heddychlon, a gwrthwynebu gweithredu milwrol ymosodol. Yn Senedd Ewrop, buom yn gwrthwynebu rhyfel Irac, yn cefnogi cau Guantanamo a rhoi diwedd ar arteithio, gwahardd ffrwydron tir a bomiau clwstwr, diarfogi niwclear ac ateb heddychlon i'r gwrthdaro rhwng Israel a Phalestina.

**Byddwn yn amddiffyn buddiannau holl bobl Cymru yn Senedd Ewrop.**

**Rydym yma i chi.**

**Jill Evans ASE**





# Yma i Chi

## Dod Drwy'r Storm

**Mae Plaid Cymru yn deall fod y rhain yn amseroedd ansicr.** Mae costau byw cynyddol yn taro nid yn unig deuluoedd gweithgar, ond pobl ifanc a'r oedrannus hefyd. Cred Plaid Cymru mewn cymdeithas deg, lle mae gwleidyddiaeth yn gweithio er lles y mwyafrif, nid yr ychydig. **Bydd Plaid Cymru o hyd yn rhoi anghenion pobl Cymru gyntaf wrth ymgyrchu dros bob ceiniog o Arian Strwythurol Ewropeaidd.** Dros y pum mlynedd nesaf, bydd y Cronfeydd Strwythurol hyn yn golygu £1 biliwn o fuddsoddiad yn economi Cymru, gan adfywio ein heconomi, a rhoi cefnogaeth hanfodol i dros 28,000 o fusnesau a 240,000 o unigolion, gwella'r amgylchedd a sicrhau cludiant cynaliadwy.

Mae'r argyfwng ariannol byd-eang wedi dechrau taro ardaloedd gwledig a threfol Cymru fel ei gilydd; yr ydym yn cydnabod ac yn deall y poen a achosir gan ddiweithdra cynyddol, cynnydd mewn costau tanwydd a mwy o ansicrwydd am y dyfodol. **Mae'r Blaid fel rhan o llywodraeth Cymru yn gweithredu yn bendant i gefnogi unigolion a busnesau trwy'r dirwasgiad** gyda buddsoddiad enfawr mewn rhaglenni sgiliau, hyfforddi a phrentisiaethau, cynllun gwerth £1 miliwn a gefnogir gan yr UE i helpu busnesau i ddatblygu syniadau fydd yn cyfrannu swyddi a chynhyrchion blaengar newydd i economi Cymru, ac ymrwymiad i adfywio cymunedol fel y bydd Cymru yn y sefyllfa orau i fanteisio ar yr adfywiad yn yr economi pan ddigwydd hynny.

Cred Plaid Cymru y gall Cymru ddatblygu economi arloesol a ffyniannus i sefyll gyda goreuon y byd. Ac eto mae Llafur yn San Steffan yn gyson wedi anwybyddu'r llais arbennig Cymreig yn Ewrop; **mae ein cymunedau, ein busnesau a'n gweithwyr yn haeddu bod yn flaenoriaeth i ASE Cymru - ond allwn ni ddim ymddiried ym mhleidiau Llundain i'n rhoi ni gyntaf.** Credwn nad oedd penderfyniad llywodraeth San Steffan i wrthod mabwysiadu'r ewro yn llesol i economi Cymru. Credwn mai'r diwydiannau gweithgynhyrchu ac amaethyddol sydd wedi dioddef fwyaf o ganlyniad i'r polisi hwn ac y **dylid mabwysiadu'r ewro ar y telerau iawn, ar yr adeg iawn.**

Mae colli swyddi gweithgynhyrchu yn gyson wedi peri difrod economaidd a chymdeithasol difrifol i lawer o gymunedau Cymru. Mae'r GVA Cymreig yn dal 25.5% yn llai nac yn y DG, a dal i ledu y mae'r bwlch rhwng y tlawd a'r cyfoethog. Credwn y bydd annibyniaeth yn rhoi i ni y llais cryf y mae arnom ei angen yn Ewrop, a'r gallu i ddeddfu er mwyn gweithredu **agwedd wirioneddol integredig a chynaliadwy tuag at ddatblygu Cymru, fydd yn cyfuno materion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.**

Bydd ASE Plaid Cymru o hyd yn siarad dros Gymru yn Ewrop. **Byddwn yn ymgyrchu am arian Ewropeaidd tuag at ddatblygu system gludiant cyhoeddus fodern i Gymru,** gyda chysylltiadau rheilffordd cyflym a rhatach rhwng y de a'r gogledd, y canolbarth a'r gorllewin, yn ogystal â gwneud i ffwrdd â'r cymorthdaliadau cudd i deithio awyr, a chyflwyno treth ar danwydd awyrennau, lonydd bysus unswydd a bysus troli mewn dinasoedd, a thaliadau tagfeydd lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn galw am wella gwasanaethau i gymudwyr o'r Cymoedd a gwella sylweddol i gludiant ledled Cymru.



Rhaid i'r strategaeth cludiant gwyrdd fod ar flaen y gad o ran newid agwedd yn gyffredinol ar draws cyfandir Ewrop. Cred Plaid Cymru fod yn rhaid i gysylltu Cymru'r unfed ganrif ar hugain â chyfandir Ewrop fod yn flaenoriaeth yn y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod, nid yn unig o ran darparu **gwasanaethau trên cyflymder-uchel gwell, modern a thrydan ar draws Cymru gyfan**, ond hefyd mewn mesurau newydd i helpu cwmnïau cludiant Cymreig i oroesi'r wasgfa economaidd.

Rhaid creu cysylltiadau cryf rhwng Cymru ac Ewrop, nid yn unig mewn trafniadaeth, ond hefyd mewn technoleg. Yr ydym yn cefnogi argymhellion diweddar i wneud mynediad at fand eang yn oblygiad gwasanaeth cyffredinol, ac **yr ydym eisiau gweld pob cymuned yng Nghymru yn gallu cyrchu cyflymderau band eang o 8Mbps o leiaf**. Bydd cysylltu Cymru â'r byd fel hyn yn annog cynhyrchu, arloesedd a chreu swyddi, ac yn adfywio ein cymunedau gwledig trwy roi gwir ddewis i bobl ynglŷn â lle a sut i weithio. Hefyd **yr ydym eisiau gweld rhannu rhwydweithiau yn orfodol rhwng cwmnïau ffôn symudol yng Nghymru**.

**Byddwn yn parhau i gefnogi addysg oedolion a sgiliau i'r gweithlu, strategaeth fydd yn peri bod gweithlu** Cymru yn ei chael yn haws i gael swyddi ac ennill cyflogau da. Mewn economi sy'n newid, rhaid i ni annog mentergarwch ac arloesedd yn ogystal â sgiliau TG a thechnoleg o'r radd flaenaf. **Yr ydym yn cefnogi digideiddio'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth fel cyfrwng democrataidd ac addysgol gwych fydd o les i holl bobl Cymru**.

Mae economi Cymru yn seiliedig i raddau helaeth ar fentrau bach a chanolig, cwmnïau teuluol yn aml neu fusnesau bach mewn cymuned glos. Bydd y cwmnïau hyn yn wynebu amseroedd caled yn y misoedd i ddod: **mae Plaid Cymru yn ymrwymedig i weithio gydagardaloedd Arian Cydgyfeiriant** i gynyddu GDP, rhoi mwy o gefnogaeth i gwmnïau bach a chanolig, a rhoi cymhellion i agor busnesau newydd yn yr ardaloedd hyn.

Mae Plaid Cymru yn cydnabod fod newid yn y byd yn galw am newid mewn diwydiannau a byddwn yn parhau i gefnogi'r diwydiant ynni amgen sydd yn brigo yng Nghymru. Mae llywodraeth Cymru'n Un wedi ymrwymo i economi gynaliadwy a Strategaeth Swyddi Gwyrdd i Gymru gyfan. Nid oes ffordd well i greu cyfleoedd busnes newydd a chwrdd â thargedau amgylcheddol. Mae rhaglen enfawr o fuddsoddi i ymladd newid hinsawdd yn rhan o'r ateb i'r argyfwng ariannol presennol. **Credwn y dylid sianelu arian Ewrop i raglen fuddsoddi sylweddol i wrthweithio newid hinsawdd, a fydd yn creu swyddi cynaliadwy** a thwf economaidd cynaliadwy. Dylai'r fargen newydd werdd hon fuddsoddi mewn seilwaith, effeithlonrwydd ynni, meicrogynhyrchu a datblygu ynni adnewyddol er mwyn gofalu y bydd y manteision amgylcheddol yn para weddill y ganrif fel gwaddol y wasgfa economaidd bresennol.

Mae Plaid Cymru yma i chi. Rydym yn deall nid yn unig fod pobl Cymru yn poeni am eu swyddi a'r economi, ond hefyd am gost gynyddol bwyd, petrol a gwresogi. Gwyddom hyn am mai ni yw'r unig blaid sydd o Gymru, yn gweithio yn unig dros bobl Cymru.



Yn 2008, gweithredodd llywodraeth Cymru dan arweiniad y Blaid ar fyrder i helpu'r sawl oedd yn ei chael yn anodd talu eu morgeisi trwy fuddsoddi miliynau yn y cynllun achub morgeisi. **Galwodd Plaid Cymru am dreth ar elw'r cwmnïau ynni ac ar i holl aelod-wladwriaethau'r UE gytuno i ymdrechu ledled Ewrop i drethu elw y busnesau hyn sy'n gwneud biliynau o bunnoedd** fel bod modd rhoi help i bobl sy'n ei chael yn anodd talu biliau nwy a thrydan uchel. **Galwn hefyd am atal TAW ledled Ewrop ar nwy a thrydan i'r cartref dros y ddwy flynedd nesaf** i liniaru problemau'r rhai y mae tlodi tanwydd wedi eu taro.

## Pobl Cyn Elw

I Blaid Cymru, pobl sy'n dod yn gyntaf o hyd. Credwn mewn Ewrop sy'n cynnig cyfle i bawb deithio a gweithio mewn gwledydd eraill cyhyd â bod eu hawliau yn cael eu hamddiffyn a'u parchu. **Byddwn yn parhau i weithio i roi diwedd ar gam-wahaniaethu a chamfanteisio ar weithwyr trwy fabwysiadu deddfau llymach a gwell hawliau i weithwyr ledled Ewrop.** Os yw'n haws ac yn rhatach i gwmnïau ddiswyddo gweithwyr yng Nghymru nac mewn gwledydd eraill, dyna'n union fydd yn digwydd. Yr ydym wedi ymrwymo i ddeddfwriaeth Ewropeaidd gryfach i atal hyn.

**Yr oeddem yn cefnogi'r gyfarwydddeb Ewropeaidd ar hawliau gweithwyr dros dro** a rwystrwyd gan y llywodraeth Lafur ers amser maith, ac yr ydym wedi ymrwymo i amddiffyn hawliau gweithwyr pan fydd cwmnïau yn cael eu cymryd drosodd - yn wahanol i Lafur, a bleidleisiodd yn erbyn hyn. Yr ydym wedi ymladd yn galed am yr hawl i weithwyr gael gwybodaeth ac ymgynghori go-iawn gan gwmnïau, a allasai fod wedi atal cymaint o golli swyddi ar raddfa fawr. **Yr oeddem yn cefnogi'r Gyfarwydddeb Amser Gweithio sy'n amddiffyn pobl rhag gorfod gweithio oriau rhy hir.**

Yn 2009, mae gan aelodau o undebau llafur yn y DG lai o hawliau i weithredu yn ddiwydiannol nag oedd ganddynt ym 1906. **Byddwn yn cefnogi gwell amddiffyniad yn erbyn diswyddo neu erlid gweithwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithredu cyfreithlon; byddwn hefyd yn cefnogi gweithredu sy'n atal defnyddio gweithwyr asiantaeth yn lle gweithwyr sy'n streicio.**



**Cred Plaid Cymru mewn amodau gwaith cyfartal i fudwyr economaidd:** yr ydym wedi ymrwymo i godiad yn yr isafswm cyflog a gwell cefnogaeth, canllawiau ac adnoddau i awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda chymunedau mewn fudwyr. Ar hyn o bryd nid oes gan yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri wir bresenoldeb yng Nghymru: **galwn am gylch gorchwyl ehangach a swyddfa barhaol yng Nghymru er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn mynd at wraidd camfanteisio ar weithwyr.**

Credwn mewn Ewrop lle mae cyflogau a swyddi yn cael eu gwarchod; Ewrop lle mae amodau yn gyfartal ledled y cyfandir. Credwn mewn Ewrop lle mae amodau gwaith wedi'u harmoneiddio, lle na all yr un cyflogwr fyth eto dalu llai trwy gamfanteisio ar lafur rhad mewn gwlad arall.

**Er mwyn atal cwmnïau rhag tandorri cyfraddau cyflog lleol a chamfanteisio ar weithwyr, cefnogwn adolygu'r Gyfarwydddeb Gweithwyr a Symudir ar unwaith.**

**Nid ydym yn credu mewn Ewrop a reolir gan y farchnad ac sy'n rhoi elw o flaen pobl.** Mae'r argyfwng ariannol byd-eang presennol yn profi fod Ewrop sy'n hybu preifateiddio a dadreoleiddio yn Ewrop lle mae ein swyddfeydd post yn cau, ein cymunedau yn gwywo a'n gwasanaethau bancio yn dymchwel mewn chwalfa o fenthycia anghyfrifol. **Galwn am isafswm gwarant gwladol ledled Ewrop ar arbedion o €150,000.** Os yw'r banciau yn mynnu gamblo â'n harian, rhaid cael camau diogelu er mwyn gwneud yn siŵr nad ydym ni, gynilwyr cyffredin, yn dioddef o'u gweithredu byrbwyll.

Cred Plaid Cymru hefyd ei bod yn hen bryd i'r banciau roi rhywbeth yn ôl i'r bobl y maent yn gweithio iddynt. I'r perwyl hwn, **galwn am dreth ledled Ewrop ar drafodion banc rhyngwladol, a fyddai'n codi biliynau i gwrdd â'r her sy'n wynebu'r byd megis datblygu rhyngwladol** a newid hinsawdd. Bob tro y mae arian trafod yn cael ei fasnachu ar draws ffiniau Ewropeaidd gan y bancwyr, byddai'r dreth Tobin hon yn help i sefydlu'r marchnadoedd arian ansefydlog, yn annog atebolrwydd ac yn hybu ymddygiad cyfrifol yn y sector bancio.

**Plaid Cymru yw'r Plaid i Gymru yn Ewrop a byddwn o hyd yn sefyll dros hawliau gweithwyr ac anghenion economaidd pobl Cymru .**

**Rydym yma i chi.**





# Sefyll Dros Ein Cymunedau

## Gwarchod Ein Dyfodol

**Cred Plaid Cymru mai newid hinsawdd yw'r pwnc sy'n diffinio gwleidyddiaeth gyfoes a'r bygythiad mwyaf a wynebw'n.** Fel Plaid Cymru, mae gennym gyfrifoldeb unigryw i wynebu'r her hon a chynnig arweiniad clir a chreadigol i bobl Cymru. Yr ydym yn rhoi pynciau newid hinsawdd a chynladwyedd wrth graidd llunio polisiau.

Mae dyfodol ein planed yn dibynnu ar weithredu brys i leihau allyriadau CO<sub>2</sub> a mabwysiadu dull gwahanol, mwy cynaliadwy, o fyw. Gyrrwyd economi'r byd gan olew, ac y mae hwnnw'n mynd yn brin. Mae tymheredd y byd yn codi a rhaid i ni weithredu er mwyn atal trychineb. Allwn ni ddim ymladd newid hinsawdd trwy barhau â'r polisiau a'i hachosodd. **Mae dull cynaliadwy o fyw yn golygu ynni, amaethyddiaeth, cludiant, tai a chymunedau cynaliadwy.**

Cymerodd llywodraeth Cymru'n Un gam enfawr ymlaen gyda'i ymrwymiad i ostyngiadau allyriadau carbon-gyfatebol blyneddol o 3% y flwyddyn erbyn 2011 yn y meysydd cymhwysedd datganoledig. Daeth yn amlwg ers hynny fod newid hinsawdd yn digwydd yn gynt ac yn cael canlyniadau llawer gwaeth na'r hyn a dybiwyd yn wreiddiol. **Galwn yn awr am ymrwymiad gan yr UE i darged blyneddol o ostwng allyriadau carbon o 9%.**

**Byddai cynllun tymor-hir i ehangu ymchwil a datblygu, buddsoddi mewn sgiliau newydd a hyfforddiant, a chefnogaeth y llywodraeth i fusnesau bychain Cymreig yn annog diwydiant ynni amgen Cymreig arloesol a brodorol.** Credwn y gallai Cymru arwain y byd mewn gweithredu technoleg newid hinsawdd fydd yn rhoi i baw yng Nghymru ddull mwy cyflawn a diogel o fyw, mewn cymdeithas fywiog a chyfrifol.

I fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd hyn, mae arnom angen pwerau i'r Cynulliad dros bolisiau ynni. Ac y mae arnom angen yr ewyllys wleidyddol i roi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn ynni adnewyddol. Tra'n bod yn dal i ddibynnu ar lo a nwy a bod gennym adnoddau ohonynt wrth gefn yng Nghymru, byddwn yn cefnogi defnyddio cyflenwadau brodorol yn hytrach na mewnforion. Yr ydym yn cefnogi ymchwil i dechnolegau megis dal a storio carbon, ond nid rhoi rhwydd hynt y mae hynny i barhau ar ein llwybr presennol. Er mwyn sicrhau hynny, yr ydym yn cefnogi safonau perfformiad allyriadau i bob pwerdy newydd ac **yr ydym yn ail-ddatgan ein gwrthwynebiad llwyr i godi unrhyw bwerdai niwclear newydd yng Nghymru.**

Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i strategaeth ynni fydd yn creu swyddi ac yn manteisio'n llawn ar ein hadnoddau naturiol. Mae'r sector ynni yng Nghymru ar hyn o bryd yn cyfrif am bron i 40% o allyriadau CO<sub>2</sub> yng Nghymru. **Mae modd defnyddio cyllid Ewropeaidd i helpu i ail-strwythuro'r sector ynni yng Nghymru** i wneud llawn ddefnydd o feicrogynhyrchu, lagwnau llanw, cynlluniau trydan dŵr ar raddfa fechan, tyrbinau gwely'r môr a chynlluniau eraill i gynhyrchu pŵer yn gynaliadwy. **Gallai gefnogi rhanbarthau tlotach i drosi i economi a chymdeithas carbon isel.** Mae gennym ddigonedd o ffynonellau helaeth o ynni adnewyddadwy megis pŵer llanw a thonau, gwynt, hydro a biomas, a allai hefyd ddod â llawer o gyfleoedd am waith a chyfle i fusnesau. Dyna pam fod Plaid Cymru yn galw am dariffau bwydo-i-mewn er mwyn annog ffynonellau ynni adnewyddol felly ar raddfa fechan.





## Gweledigaeth Leol Gref

**Yr ydym wedi llwyr ymrwymo i sicrhau rheolaeth Gymreig dros ein hadnoddau ynni ac i greu Cronfa Gyfoeth Sofran** - credwn i Gymru ddioddef camfanteisio yn y gorffennol a bod yn rhaid i ni atal hynny rhag digwydd eto. Rhaid defnyddio ein hadnoddau naturiol i greu gwir fanteision cymdeithasol.

Mae Plaid Cymru yn cydnabod y gallai canlyniadau amgylcheddol Morglawdd Caerdydd-Weston fod yn enfawr. **Galwn am gefnogaeth Ewrop i gynlluniau pwer llanw yn Aber yr Afon Hafren sydd yn gwneud cyn lleied ag sydd modd o ddifrod i'r amgylchedd ac ar yr un pryd yn hybu cynhyrchu trydan carbon-sero am gost y gall defnyddwyr ei fforddio.** Credwn fod modd datblygu potensial ynni llanw Aber yr Afon Hafren yn fwy effeithlon, yn rhatach a chyda llai o effeithiau ar yr amgylchedd a symudiadau llongau trwy gyfuniad o lagunau a thyrbinau llif y llanw.

Bydd Plaid Cymru yn parhau i wrthwynebu defnyddio llosgyddion gwastraff a all olygu nad oes gan bobl gymhelliad i ailgylchu, ac sy'n gallu llygru. **Credwn yn yr hierarchaeth wastraff o 'atal, ail-ddefnyddio, ail-gylchu, adfer a gwaredu'** ac mewn targedau caeth ar gyfer atal gwastraff. Yn Senedd Ewrop, yr oeddem yn cefnogi targed o ailgylchu 50% o wastraff bwrdeistrefol a 70% o wastraff adeiladu a dymchwel erbyn 2020, yn ogystal â threth tirlenwi uwch fel anghymhelliad, cynyddu refeniw a helpu i wneud dulliau amgen o reoli gwastraff yn hyfwr a chystadleuol. **Byddwn yn gweithio i newid deddfwriaeth caffael cyhoeddus yn Senedd Ewrop**, fel y gall awdurdodau ffafrio deunyddiau o ffynonellau eilgylch a lleol a thrwy hynny ddiogelu'r farchnad a'r swyddi a grëir yn y sector hwn. **Hefyd, yr ydym yn cefnogi tynnu ymaith TAW ar ddeunyddiau a chyfarpar arbed ynni.**

Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu dyfodol ein holl gymunedau. Mae Cymru yn genedl amlddiwylliannol, gyda hunaniaethau gwledig a threfol cryf, ac yr ydym yn falch o'r ymrwymiad fu gennym ers amser i amddiffyn gwerthoedd lleol. Bydd ein polisiâu yn help i ddatblygu economïau rhanbarthol, amddiffyn a datblygu gwasanaethau cyhoeddus cymunedol a darparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig.

Rhaid ail-leoleiddio economi a gwasanaethau Cymru fodern cyhyd ag sydd modd a chredwn y gall yr agwedd hon ail-sefydlu arwahanrwydd rhanbarthol. **Mae ein cymunedau yn hanfodol bwysig.** Gall cefnogi cymunedau lleol ac amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus helpu Cymru yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd trwy leihau allyriadau carbon a bydd yn help i baratoi pobl ar gyfer byd mwy cynaliadwy.

Cred Plaid Cymru y dylai llywodraeth ar bob lefel gynnal a chefnogi cymunedau i ddatblygu ffynonellau bwyd ac ynni lleol a chefnogi'r mudiad Trefi Trawsnewid. **Mae gennym lawer o botensial yng Nghymru i leoleiddio ein systemau bwyd a hefyd i hybu cynnyrch ffres, da o ansawdd uchel.** Mae cynghorwyr y Blaid wedi annog prynu bwyd yn lleol at ddefnydd y sector cyhoeddus a byddwn yn ceisio newid y ddeddfwriaeth bresennol i hwyluso hyn. Yn y cyfnod newid hinsawdd hwn, fe fydd diogelwch bwyd yn bwysicach nag erioed. **Yr ydym eisiau gweld cynhyrchion lleol yn cael eu cynhyrchu neu eu tyfu mewn dull cyfeillgar i'r amgylchedd yn cael eu gwerthu mewn archfarchnadoedd a siopau eraill fel rhan o agwedd holistaidd at yr amgylchedd a bwyd.**



Bydd Plaid Cymru yn gweithio i adfywio Cymru a'i gwneud yn bosibl ac yn ddeniadol i bobl ifanc aros yn eu cymunedau. **Galwn am ddiwygio'r meini prawf cymhwyster ar gyfer cyllid Cydgyfeiriant fel bod y rheolau yn ystyried amddifadedd cymdeithasol ac amgylchiadau daearyddol ac amgylcheddol.** Mae ar bobl ifanc angen swyddi a thai fforddiadwy - fe wnawn ni yn siŵr eu bod yn cael yr holl help mae arnynt ei angen i fyw yn y man maen nhw'n ei ddewis.

Cred Plaid Cymru fod Swyddfeydd Post yn wasanaeth hanfodol i'r gymdeithas ac yn hanfodol o ran llunio cymunedau cynaliadwy yng Nghymru. **Byddwn yn parhau gyda'n hymgyrch gref yn erbyn cau'r Swyddfeydd Post.** Bu llywodraethau San Steffan yn y 1990au yn llacio rheoliadau ar y gwasanaethau post, gan aberthu gwasanaeth cymunedol yn enw grymoedd y farchnad . **Byddwn ni yn cefnogi adolygu'r rheolau cystadleuaeth,** a thrwy hynny adael i'n gwasanaethau lleol gwerthfawr oroesi.

Mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn help i gynnal amaethyddiaeth mewn llawer rhan o'r Gymru wledig. Yr ydym yn croesawu'r newid pwyslais o gynhyrchu tuag at fesurau i helpu'r amgylchedd a gwrthweithio newid hinsawdd, a bydd yn help i roi dyfodol cynaliadwy i amaethyddiaeth Cymru. **Yr ydym yn cefnogi diwygio modern a thymor hir ar y PAC sydd yn cydnabod cynhyrchu bwyd dan reolaeth amgylcheddol dda, cynnal cymunedau gwledig cynaliadwy, a safonau uchel o les anifeiliaid a rheoli ansawdd.** Ar hyn o bryd, mae tîrfeddianwyr mawr yn gallu manteisio ar gymorthdaliadau cyhoeddus enfawr.

Mae hyn yn gwahaniaethu yn erbyn llawer o ffermydd bychain Cymreig, felly yr ydym yn croesawu Gwiriad Iechyd PAC Ewrop a chefnogwn gapio cymorth amaethyddol ar £250,000.

Bydd Plaid Cymru yn wastad yn ymladd i amddiffyn ffermydd bychain yng Nghymru. Mae buddiannau ffermwyr Cymru yn wahanol iawn i rai'r lobi amaethyddol gref yn y DG. Mae angen safbwynt Cymreig ar amaethyddiaeth Gymreig. **Byddwn yn parhau i wrthwynebu rheolau newydd yr UE ar dagio defaid yn electronig.** Credwn y dylai deddfwriaeth EID fod yn wirfoddol yn hytrach na gorfodol gan fod y rheolau fel y maent ar hyn o bryd yn anodd eu gweithio ac yn rhy ddrud. **Byddwn hefyd yn ceisio rhan-ddirymu o'r Gyfarwydddeb Stoc Trig** sydd wedi achosi llawer o broblemau i ffermwyr Cymru.

**Byddwn yn parhau i ymgyrchu'n galed i gadw Cymru yn ardal rydd o GM** a byddwn yn gweithio gyda rhanbarthau a gwledydd eraill sy'n rhydd o GM er mwyn sicrhau bod gennym yr hawl i benderfynu ar waharddiadau cenedlaethol ar GM. Byddwn yn cefnogi labelu haearnaid ar fwyd a phorthiant GM, a chynnyrch o anifeiliaid a fwydwyd ar borthiant GM.

**Plaid Cymru yw llais holl gymunedau Cymru yn Ewrop.**

**Rydym yma i chi.**



# Ymgyrchu Dros Gymru yn Ewrop

## Ein Dyfodol Cenedlaethol

Yr ydym eisiau i Gymru gyflawni ei photensial fel aelod annibynnol o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r penderfyniad ar ein dyfodol cenedlaethol yn allweddol i ddyfodol Cymru fel cenedl Ewropeaidd. Nid mater cyfansoddiadol yn unig mohono. Heb lais llawn ym mhrif goridoriau Ewrop, rhaid i'n pobl ni fodloni ar yr ail orau. Mae Plaid Cymru yn cefnogi dadl onest ac agored ar ddyfodol Ewrop, a dyna pam ein bod yn cefnogi refferendwm am Gytundeb Lisbon. Addawodd Gordon Brown a Llafur Newydd refferendwm i ddechrau, ac yna mynd yn ôl ar eu gair.

Nid yw'r ffaith fod Cymru yn genedl fach yn broblem - i'r gwrthwyneb, yn wir. Mae llawer o wledydd bychain yn gwneud yn well na rhai mawr. Y mae chwech o'r saith ar hugain aelod-wladwriaeth yn Ewrop yn llai na Chymru. **Mae Cymru ar ei cholled am nad yw'n aelod annibynnol.** Nid oes gennym Gomisiynydd Ewropeaidd; dim ond pedwar aelod sydd gennym o Senedd Ewrop o gymharu â Latfia sydd yr un maint â Chymru a chanddi naw aelod; ac yn bwysicaf oll, nid oes gennym bleidlais yng Nghyngor y Gweinidogion lle cytunir ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Nid yw'n effeithlon nac yn dderbyniol i weinidog o lywodraeth Llundain siarad dros Gymru.

Fel mesur dros dro, cynigiwn fod gan Brif Weinidog Cymru yr hawl i fynychu Cyngor y Gweinidogion fel Sylwedydd gyda hawliau siarad. Ymhellach, mae'r DG ar hyn o bryd yn enwebu un Comisiynydd am gyfnod o bum mlynedd. **Mae Plaid Cymru yn galw am i hyn gael ei gylchdroi rhwng Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr**, gyda phob un yn ethol cynrychiolydd am 15 mis. Er mwyn cryfhau'r berthynas rhwng pobl Cymru a Senedd Ewrop, **byddwn yn parhau i bwysu am sefydlu swyddfa o Senedd Ewrop yng Nghymru.**

**Yn 2008, llwyddodd Plaid Cymru i ennill statws cyd-swyddogol i'r iaith Gymraeg yn yr Undeb Ewropeaidd**, carreg filltir hanesyddol yn yr ymgyrch i ddod yn aelod-wladwriaeth lawn. Gall pobl a sefydliadau yn awr ohebu a chyfathrebu gyda sefydliadau'r UE yn Gymraeg a Saesneg. Siaradwyd y Gymraeg am y tro cyntaf yng Nghyngor y Gweinidogion a Phwyllgor y Rhanbarthau.

Ond mae llawer eto i'w wneud. **Byddwn yn parhau i ymladd dros hawliau siaradwyr ieithoedd lleiafrifol yn Ewrop. Yr ydym yn cefnogi ymgyrch .cym i gael statws parthenw i Gymru ar y Rhyngrwyd.** Yr ydym hefyd wedi llunio cynghreiriau gyda chenhedloedd diwladwriaeth a chymunedau lleiafrifol Ewropeaidd eraill i hybu achos hawliau lleiafrifol ac ieithyddol.



**Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i gyfathrebu ac ymgychu trwy ddefnyddio cyfryngau newydd arloesol;** mae ein safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn cynyddu mewn poblogrwydd ac yn cyrraedd mwy o bleidleiswyr. Yn 2007, Jill Evans ASE oedd yr unig ASE Cymreig i gael ei henwebu am wobwr cyfryngau newydd y New Statesman.

Cred Plaid Cymru fod y cyfleoedd sydd ar gael i ni fel dinasyddion Ewropeaidd yn werthfawr dros ben. Does dim rhanbarth arall yn y byd lle gall hanner biliwn o bobl symud yn rhydd rhwng gwladwriaethau i weithio ac i fyw. Yr ydym yn cefnogi cynlluniau Ewropeaidd sy'n galluogi **pobl ifanc i fyw ac astudio neu weithio dramor**. Mae hyn yn gwella sgiliau iaith ac yn ehangu gorfelion ein pobl ifanc. Mae Plaid Cymru wedi cynnig profiad gwaith ym Mrwsel a Strasbwrg i niferoedd o bobl ifanc o Gymru dros y deng mlynedd diwethaf a byddwn yn parhau i ehangu ein rhaglen intern yn y senedd nesaf. Mae medr a phrofiad pobl ifanc o Gymru yn hanfodol yn economi Ewrop heddiw

Ac eto, er ein bod wedi llwyr ymrwymo i'r delfrydau sy'n rheswm dros i wledydd Ewrop ddod ynghyd i greu Undeb – heddwch a phartneriaeth economaidd - **cred Plaid Cymru hefyd ei bod yn bryd diwygio'r UE** fel y gall amddiffyn pobl Ewrop rhag bygythiadau'r argyfwng hinsawdd, globaleiddio a'r wasgfa gredyd. Rhaid i bethau newid: rhaid i'r UE sefyll drosoch chi, dros eich cymuned a dyfodol Cymru. Rydym am weld Ewrop ddemocrataidd lle gellir clywed llais Cymru a'r dinesydd cyffredin. **Rydym yn parhau i alw am ddileu'r 'syrkas deithiol' rhwng Brwsel a Strasbwrg.**

Mae'r daith fisol i Strasbwrg yn costio €200 miliwn y flwyddyn ac yn cynhyrchu 20,000 tonnall fetrig o garbon deuocsid y flwyddyn. Bydd ASE Plaid yn parhau i weithio gyda'r Ymgych dros Ddiwygio Seneddol

Ni ddylem anghofio mai ein cyfrifoldeb ni yw gofalu nad yw Cymru yn aros ar y cyrion yn Ewrop - rhaid i ni hefyd gyfrannu at y broses Ewropeaidd. I wneud hyn yn effeithiol, mae arnom angen llais argyhoeddiadol a deallus yn Ewrop. **Bydd Plaid Cymru yn ymgychu dros rôl gryfach i Bwyllgor Ewropeaidd y Cynulliad** o ran craffu ar gynigion a deddfwriaeth Ewropeaidd er mwyn rhagweld eu heffaith ar Gymru a sicrhau gweithredu cynnar ac effeithiol i ddadlau achos Cymru ym mhroses gwneud penderfyniadau yn yr UE. **Byddwn yn gweithio hefyd tuag at gryfhau rôl ac amlygrwydd y gynrychiolaeth Gymreig ym Mrwsel.**





## Gwell Byd

**Cred Plaid Cymru nad oes esgus dros barhau ag anghydraddoldeb ac anghyfiawnder ledled y byd.**

Yr ydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r ddyled enfawr yn y byd sy'n datblygu, cyrraedd targedau'r CU ar gymorth tramor a helpu cenhedloedd tlotaf y byd i ateb amcanion Datblygu'r Mileniwm. Yr ydym yn cydnabod na wnaiff ein methiant i wneud gwahaniaeth yn y byd sy'n datblygu ddim ond creu chwerwder, trais ac ymraniadau.

**Yr ydym yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a wnaeth mudo i Ewrop, yn gymdeithasol, diwylliannol ac economaidd dros flynyddoedd lawer, a chredwn y bydd y cyfraniad cadarnhaol hwn yn parhau yn y dyfodol.**

Mae mudo yn broses naturiol mewn bywyd dynol ac y mae er ein lles oll i'r UE ymdrin â hyn mor effeithiol ac effeithlon ag sydd modd. Yn yr un modd, yr ydym yn cydnabod y gall llawer o les ddeillio i bawb o gael mwy o gydweithrediad mewn ceisio lloches a mewnfudo ar lefel yr UE, a'r rhan bwysig y gall Ewrop ei chwarae i helpu integreiddio mewnfydwyr newydd, gan gynnwys gwneud hyn yn ieithoedd y cenhedloedd diwladwriaeth. **Credwn ein bod yn rhannu dyletswydd i gynnal ac amddiffyn hawliau pobl i geisio lloches, a byddwn yn gweithio i ofalu bod traddodiad balch Ewrop o gynnig dihangfa i bobl dan erledigaeth yn parhau.**

Fel Cenedl Fasnach Deg gyntaf y byd, **rhaid i Gymru arwain yr alwad am Ewrop Fasnach Deg**, gan wthio egwyddorion tegwch, cyfiawnder cymdeithasol a safonau amgylcheddol uchel. Mae pobl Ewrop yn dod yn fwy ymwybodol o anghyfiawnder y system fasnach ryngwladol, ac yn mynd ati yn ymwybodol i ddewis cynhyrchion Masnach Deg.

Mae Plaid Cymru yn falch o'n hymrwymiad i hawliau cyfartal pob unigolyn. Yr ydym yn condemnio'r twf yn y fasnach mewn pobl, yn enwedig o ranbarthau megis de-ddwyrain Ewrop sydd, yn sgîl rhyfel a dirywiad economaidd difrifol, wedi datblygu yn ganolbwynt i fasnachu mewn menywod a phlant. Yr ydym wedi ymgychu'n llwyddiannus am fwy o adnoddau i helpu dioddefwyr masnachu ddianc rhag y sawl oedd yn eu dal yn gaeth, a dod o hyd i le diogel. **Galwn am fwy o weithredu effeithiol Ewropeaidd i roi diwedd ar y gaethwasiaeth fodern hon.**

**Mae heddych a chyfiawnder rhyngwladol wedi bod yn benconglfaen athroniaeth Plaid Cymru erioed.** Credwn fod rhyfel yn ffaidd a chondemniwn lywodraeth San Steffan am lusgo Cymru i ryfeloedd anghyfreithlon. Credwn y gall yr Undeb Ewropeaidd, trwy Uwch-Gynrychiolydd dros Bolisi Tramor a Diogelwch Cyffredin, chwarae mwy o ran yn atal a datrys anghydfod a gwrthdaro, gan gynnwys ymgrychoedd cadw heddych ar y cyd, ac y dylai wneud hynny. **Galwn hefyd am weithredu Ewropeaidd effeithiol ar y fasnach arfau ryngwladol**, gan gynnwys cytundeb newydd a chod ymddygiad cadarn yn cyfyngu ar allforio arfau, yn ogystal â gwaharddiad llwyr ar ffrwydron tir, bomiau clwstwr a ffosfforws gwyn. Mae'r diwydiant arfau yn creu loes ac angau i filiynau o bobl ledled y byd, nid yn unig oherwydd ei rym dinistriol ond trwy gyfeirio adnoddau oddi wrth weithgareddau sydd o les cymdeithasol megis cynhyrchu bwyd, addysg ac iechyd. Galwn hefyd am waharddiad llwyr ledled Ewrop ar ddefnydd milwrol o wraniwm. **Byddwn yn parhau i weithio am Gymru ddi-niwclear a byd di-niwclear.**



**Plaid**  
PLAID CYMRU

# Plaid - Yma i Chi

Yr ydym yn gwrthwynebu cynlluniau'r llywodraeth Lafur i gomisiynu arfau niwclear newydd a chynlluniau UDA am amddiffynfeydd taflegrau yn Ewrop.

**Yr ydym yn cefnogi rôl yr Undeb Ewropeaidd yn hybu heddwch a datblygu economaidd yn y Dwyrain Canol.** Yr ydym hefyd yn cefnogi mentrau gan yr Undeb Ewropeaidd i hybu deialog rhwng diwylliannau a rhwng carfannau ffydd, a buasem yn cefnogi mwy o raglenni cyfnewid rhyng-ddiwylliannol wedi eu cyllido gan yr UE fel modd o annog mwy o ymddiried a dealltwriaeth rhwng pobloedd. **Bu Plaid Cymru yn ymgyrchu ers amser am ateb heddychlon i'r gwrthdaro rhwng Israel a Phalestina** a fyddai'n golygu cytuno ateb dwy wladwriaeth, ac yr ydym yn falch o'r gwaith dros heddwch a wnaeth Jill Evans ASE fel aelod o Ddirprwyaeth Senedd Ewrop dros Gysylltiadau gyda'r Cyngor Deddfwriaethol Palesteinaidd.

Mae Plaid Cymru yn galw am Sefydliad Heddwch Cymreig i gynghori Llywodraeth Cymru ar bolisiau i hybu heddwch, atal gwrthdaro, a chreu cymod.

**Mae Plaid Cymru yn credu mewn dyfodol modern, amlddiwylliannol a blaengar i Ewrop. Rydym yn addo y byddwn yn wastad yn ymgyrchu dros Gymru – a holl bobl Cymru - yn Ewrop.**

**Rydym yma i chi.**